

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 11.30 ar 28 MEHEFIN 2019, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (tan gofnod 105); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies (trwy Skype); Mr Richard John; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern (tan gofnod 98); Ms Fiona Sharp; Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; Yr Athro Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwigelaar.

Yn gweinyddu: Mr Arthur Dafis, Uwch Swyddog Cyfathrebu; Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (o gofnod 94); Mr Tomos Ifan, Darpar Lywydd UMCA; Mr Dhanjeet Ramnatsing, Darpar Lywydd UMAber; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (cofnodion 93, 96.3 a 97); Mr Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg (ar gyfer cofnod 93); a Mr Andy Shenstone, AdvanceHE (trwy Skype, ar gyfer cofnod 94).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Meri Huws; a Ms Kath Williams.

83. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

1. Croesawyd Fiona Sharp, a ddaeth yn Aelod Annibynnol newydd o'r Cyngor ar 01 Mai 2019, i'w chyfarfod cyntaf o'r Corff Llywodraethu.
2. Croesawyd Dhanjeet Ramnatsing, Darpar-Lywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber); a Tomos Ifan, Darpar-Lywydd UMCA; yn sylwedyddion i'r cyfarfod. Byddent yn dechrau ar eu tymhorau yn aelodau o'r Cyngor ar 01 Gorffennaf 2019.
3. Croesawyd Arthur Dafis i gyfarfod y Cyngor, yn gynrychiolydd ar ran tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus y Brifysgol. Cafodd yr aelodau eu hysbysu'n flaenorol bod Esther Prydderch yn dymuno ymddiswyddo o fod yn Bennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus. Diolchwyd i Mrs Prytherch am ei chyfraniad i'r Brifysgol yn y swydd honno. Roedd camau'n cael eu cymryd yn awr i benodi olynydd iddi'n Bennaeth ar yr Adran.

2. Llongyfarchion

Cafodd dau unigolyn a chanddynt gysylltiadau agos â'r Brifysgol eu llongyfarch ar gael eu cynnwys yn Rhestr Anrhydeddau Pen Blwydd y Frenhines:

1. Yr Athro Robin Williams, Cymrawd Anrhydeddus ac Aelod Annibynnol o'r Cyngor, a gafodd ei urddo'n farchog; a
2. Yr Athro Elan Closs Stephens, Athro Emeritws a darpar-Ddirprwy Ganghellor, ar ei gwneud yn Fonesig.

3. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Neville Greaves, cyn-Bennaeth yr Adran Ffiseg a chyn-Gyfarwyddwr yr Athrofa Mathemateg a Ffiseg.
2. Y Darlithydd Emeritws Dr Eric G Hall;
3. Yr Athro Noel Lloyd, cyn Is-Ganghellor;
4. Dr John Sheehy, Cymrawd Anrhydeddus; a
5. Phoebe Williams, myfyrwraig ail flwyddyn yn Yr Ysgol Gelf.

4. Digwyddiadau diweddar

1. Adroddodd y Cadeirydd iddo fod mewn derbyniad yn y Senedd ar 30 Ebrill 2019, i nodi canmlwyddiant yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.
2. Bu'r Cadeirydd hefyd mewn cyfarfod o Gadeiryddion Prifysgolion Cymru (CPC) ar 13 Mai 2019. Byddai tymor Cadeirydd cyfredol y grŵp hwnnw'n dod i ben yn yr hydref, ac fe gafodd Dr Emyr Roberts ei ethol gan aelodau CPC yn Gadeirydd newydd ar y grŵp am dymor yn dechrau ar 01 Hydref 2019.

5. Ymweld â safle

1. Ar bawn 27 Mehefin 2019, manteisiodd nifer o aelodau'r Cyngor ar y cyfle i ymweld â Llwyfan Ymchwil Ucheldir y Brifysgol ym Mhwllpeiran.
2. Cyn cyfarfod y Cyngor, roedd aelodau hefyd wedi ymweld â rhai o'r adnoddau pwysig i fyfyrwyr ar gampws y Brifysgol, gan gynnwys y Ganolfan Chwaraeon; Llyfrgell Hugh Owen; a rhai darlithfeydd.

84. **GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

85. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2019 (COU1819-134).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

86. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1819-135).

NODWYD

1. Pantycelyn (cofnod 50.1.7)

Cafodd llythyr o fwriad ei lofnodi bellach rhwng y Brifysgol a Morgan Sindall. Roedd hyn wedi caniatáu i'r gwaith adnewyddu gychwyn mewn difri ddechrau mis Mehefin, a chytunwyd ar raglen waith o 13 mis. Disgwylid felly i'r gwaith gael ei gyflawni erbyn Gorffennaf 2020, ac nid 2022 fel y nodwyd mewn camgymeriad yn y cofnodydd.

2. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

87. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-136).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor yr oedd yr aelodau wedi cymeradwyo materion trwy ohebiaeth.
2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
 1. cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad diwygiedig 2020-21 i'r Cyngor Cyllido; a
 3. penodi Dr Emyr Roberts a'r Athro Syr Robin Williams i wasanaethu'n Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Dewis sy'n cael ei sefydlu i benodi Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi).

88. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

89. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1819-137).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; prif ystyriaethau cynllunio a sefyllfa ddiweddaraf denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau. Cafodd datganiad safbwynt drafft ar ran y Brifysgol ei gynnwys, yn ogystal â gwybodaeth am y defnydd o ymgynghorwyr allanol i gynghori ynglŷn â gweithgareddau marchnata a denu myfyrwyr, mewn ymateb i geisiadau blaenorol gan aelodau'r Cyngor.
2. Croesawodd yr Is-Ganghellor yr adborth a dderbyniwyd gan aelodau'r Cyngor ers dosbarthu'r datganiad safbwynt drafft. Byddai fersiwn ddiwygiedig nawr yn cael ei pharatoi a'i rhannu ag aelodau'r Cyngor maes o law (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr).
3. Trafododd yr aelodau'r rhagolygon diweddaraf ynglŷn â niferoedd myfyrwyr ar gyfer mynediad ym mis Medi 2019. Wrth i bob ymdrech gael ei gwneud i drosi ceisiadau'n dderbyniadau cadarn, roedd lefel y gystadleuaeth rhwng sefydliadau'n dal i fod yn heriol.

4. Roedd dadansoddiad diweddar a gynhyrchwyd gan DataHE wedi sbarduno adolygiad o strategaeth y Brifysgol ar gyfer gwneud cynigion. Trafodwyd hyn yn fanwl gan yr aelodau, yn enwedig y defnydd posibl o gynigion diamod yn y dyfodol. Cadarnhawyd nad oedd PA bellach yn rhoi cynigion diamod amodol, ac nad oedd yn fwriad ganddi aildechrau gwneud hynny yn y dyfodol.
5. Cafodd crynodeb o'r Grantiau Ymchwil a ddyfarnwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor ei roi ar SharePoint ar gyfer aelodau'r Cyngor (COU1819-165).

90. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1819-138).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r diweddariad llawnach ar iechyd a diogelwch a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 23 Mai 2019.

91. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU1819-139).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Croesawodd yr aelodau'r cadarnhad nad oedd UMAber wedi derbyn unrhyw gwynion gan fyfyrwyr yn ystod y cyfnod arholiadau mwyaf diweddar.

92. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad Ariannol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell, yn ymgorffori crynodeb o berfformiad ariannol Chwarter 2 2018–19 (COU1819-140).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad grynodeb o berfformiad ariannol y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 2 (28 Chwefror 2019), yn ogystal â manylion am ddatblygiadau ariannol a newidynnau allweddol diweddar.
2. Roedd y sefydliad yn dal ar y trywydd o ran y diffyg a gynlluniwyd yng nghyllideb 2018-19. Ond, oherwydd yr oedi yn symud rhai achosion busnes yn eu blaen byddai cyfran hanesyddol y gwargedion sy'n ddyledus i'r Brifysgol yn achos un o neuaddau'r myfyrwyr nawr yn cael ei ddefnyddio i gadw at y diffyg y cytunwyd arno yn y gyllideb am y flwyddyn.
3. Mynegodd yr aelodau eu siom y byddai'r incwm eithriadol hwn yn cael ei ddefnyddio yn y fath fodd. Pwysleisiodd y Weithrediaeth mai mater o amseru yn unig oedd hyn ac y byddai'r arbedion rheolaidd sydd eu hangen o dan y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yn dal i gael eu cwblhau'n llwyr.

2. Y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell; a'r Cyfrifydd Rheolaethol, Mark Davies (COU1819-141).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r CGC; y ffactorau ariannol yn dylanwadu ar gyflawni o'i gymharu â thargedau; a'r dull lliniaru risg a sefydlwyd.
2. Roedd ymgynghori ar yr achos busnes terfynol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r arbedion rheolaidd a dargedir yn rhan o'r CGC bellach yn digwydd. Disgwylid y byddai'r broses hon yn cael ei chyflawni erbyn dechrau'r hydref 2019, ar yr adeg y byddai'r CGC wedi ei gwblhau'n llwyr. Byddai unrhyw achosion busnes yn y dyfodol felly'n cael eu symud ymlaen yn rhan o weithrediadau dydd i ddydd.
3. Byddai symud o gampws Llanbadarn yn llwyr yn strategaeth fwy hirdymor. Cafodd yr opsiynau sy'n cael eu hystyried eu hamlinellu i'r aelodau, a chydnabuwyd, oherwydd natur yr ased, y byddai angen cyngor arbenigol er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r Brifysgol.

3. Cyllideb 2019-20, a rhagolygon ariannol am flynyddoedd pellach ymlaen hyd at 2022-23

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1819-142).

NODWYD

1. Roedd y gyllideb arfaethedig am 2018-19 yn targedu gwarged gweithredol bach, yn unol â'r rhagolygon gwreiddiol pryd y cytunwyd ar y CGC, ac felly'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diweddar wrth gyrraedd targedau'r Cynllun. Amlinellwyd prif elfennau'r gyllideb ddrafft gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
2. Roedd y gyllideb ddrafft wedi'i hystyried gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ar 23 Mai 2019. Ers hynny cynhyrchwyd fersiwn ddiwygiedig yn ymgorffori'r wybodaeth ddiweddaraf a ddaeth i sylw'r Brifysgol, gan gynnwys gwybodaeth yng nghyswllt nifer y myfyrwyr a dderbynnir a thrafodaethau tâl y sector.
3. Yn gynharach yn y dydd, roedd y Cyngor Cyllido wedi cyhoeddi cylchlythyr ar Gyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch am 2019-20. Ni fu'r £905k a ddosrannwyd i'r Brifysgol yn ffactor yn unrhyw gyllideb, ac fe fyddai'n rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa i symud gwaith cyfalaf yn ei flaen yn gynt na'r bwriad gwreiddiol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r gyllideb ddrafft am 2019-20, a nodi'r rhagolygon ariannol am flynyddoedd pellach ymlaen hyd at 2022-23 (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

93. YR HEN GOLEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol (COU1819-143).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion am gynnydd y prosiect, gan roi sylw arbennig i: geisiadau cynllunio; sefyllfa TAW; y diweddaraf am y cynllun busnes; amcan o'r costau cyfalaf; sefyllfa cyllid cyfatebol ar hyn o bryd; a chyfraniad cyfalaf y Brifysgol ei hun.
2. Trafododd yr aelodau gyfanswm y cyllid cyfatebol a gadarnhawyd hyd yn hyn, a'r trafodaethau sy'n dal i fynd yn eu blaen rhwng y Brifysgol â chyllidwyr allanol posibl eraill. Ar hyn o bryd, mae bwlch posibl yn parhau yn y cyllid cyfalaf y byddai'n rhaid i'r Brifysgol ei hun ei lenwi. Ond, roedd ymdrechion yn parhau i leihau hyn cymaint â phosibl.
3. Roedd yn rhaid i'r Brifysgol gyflwyno'i chais Cyfnod 2 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn ystod mis Awst 2019 - cyn cylch cyntaf cyfarfodydd pwyllgorau'r flwyddyn academaidd. Roedd y Cyngor felly'n cael ei wahodd i gytuno i gyflwyno'r cais yn y cyfarfod cyfredol. Ond, pwysleisiwyd y byddai angen penderfyniadau pellach gan y Cyngor pan fyddai canlyniad y cais yn hysbys, gan gynnwys yng nghyswllt penodiad unrhyw gontractwyr, a chadarnhad ffurfiol o gyfraniad cyfalaf y Brifysgol ei hun.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'n unfrydol i gyflwyno cais Cyfnod 2 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yn amodol ar uchafswm cyfraniad cyfalaf o £6m gan y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

94. AROLWG O EFFEITHLONRWYDD LLYWODRAETHU

DERBYNIWYD

Adroddiad Arolwg o Effeithlonrwydd Llywodraethu gan AdvanceHE (COU1819-148).

NODWYD

1. Roedd y Brifysgol wedi comisiynu ymgynghorwyr o AdvanceHE i gynnal arolwg allanol o effeithlonrwydd y llywodraethu rhwng Rhagfyr 2018 a Mai 2019. Cafodd drafft cynharach o'r adroddiad a baratowyd ei ddarparu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) i roi ystyriaeth gychwynnol iddo, ac roedd y fersiwn a gyflwynwyd yn awr i'r Cyngor wedi'i diwygio i egluro rhai sylwadau yng ngoleuni adborth a dderbyniwyd gan aelodau'r LI&Ch.
2. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a grynhowyd a'r dadansoddiad cymharol a wnaed, daeth AdvanceUK i'r casgliad fod gan y Brifysgol ddulliau o sicrhau gwelliant yng nghyswllt effeithlonrwydd y llywodraethu. Croesawodd yr aelodau'r cadarnhad bod y Brifysgol yn cymharu'n ffafriol â sefydliadau meincnod a oedd wedi cynnal yr un fath o arolwg effeithlonrwydd gydag AdvanceHE.
3. Cydnabuwyd bod y sefydliad yn parhau ar ei thaith o ran gwella effeithlonrwydd ei phrosesau llywodraethu, a gwnaed cyfres o argymhellion yn yr adroddiad. Cawsant eu trafod yn fanwl gan yr aelodau, a gofynnwyd i AdvanceHE am fwy o gyd-destun ynghylch rhai agweddau. Y cam nesaf fyddai i'r Brifysgol ystyried pa rai o'r argymhellion i'w symud yn eu blaen, a sut y dylid blaenoriaethu wrth eu gweithredu.

PENDERFYNWYD

4. Y dylid, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor, datblygu cynllun gweithredu i ymateb i argymhellion adroddiad AdvanceHE, i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor LI&Ch (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

95. GWAREDU ASEDAU NAD OES EU HANGEN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety (COU1819-144).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad y manylion diweddaraf ynglŷn â gwaredu'r asedau tir ac adeiladau a gytunwyd gan y Cyngor ar 23 Mehefin 2017 a 26 Tachwedd 2018. Argymhellai'r adroddiad y dylid gwaredu chwe ased pellach.
2. Dim ond un cynnig a dderbyniwyd am un ased y cymeradwywyd yn flaenorol y dylid ei roi ar werth. Roedd y cynnig yn is na chyfartaledd y gwerth a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Cyngor. Yn seiliedig ar y diffyg diddordeb a ddangoswyd yn yr eiddo hyd yn hyn, argymhellwyd i'r Cyngor y dylid derbyn yr un cynnig a ddaeth i law.
3. Ers cau Brynamlwg i staff a myfyrwyr ym mis Gorffennaf 2018 roedd yr adeilad yn dal i fod yn wag. Roedd opsiynau ynghylch y defnydd i'w wneud o'r adeilad yn dal i gael eu hystyried a byddai cynnig ar wahân yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gylch pan a phryd y byddai'n briodol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo gwaredu'r pedwar eiddo preswyl a'r ddwy fferm, fel y nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety).
5. Cymeradwyo gwerthu'r eiddo preswyl am werth yr unig gynnig a ddaeth i law, fel y nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr yr Ystadau, Adnoddau a Llety).

96. MATERION STRATEGOL

1. Cynllun Strategol 2018-23 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU1819-145).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno pwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad.

2. Strategaeth Dysgu ac Addysgu

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr), yn ymgorffori drafft Strategaeth Dysgu ac Addysgu 2019-22 (COU1819-146).

NODWYD

1. Datblygwyd drafft y Strategaeth D&A i ategu Strategaeth sefydliadol 2018-23, ac roedd yn cynnwys amcanion a chamau gweithredu y gellid cadw trefn fanwl arnynt, gan ganolbwyntio ar anghenion cyfredol y sefydliad trwy gyfnod o drawsnewid sylweddol. Byddai agweddau ar y Strategaeth arfaethedig hefyd yn tywys datblygiad strategaethau galluogi eraill y Brifysgol, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â datblygu'r ystadau.
2. Trafododd yr aelodau gynnwys y Strategaeth ddrafft a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn fanwl - yn enwedig y rhyngwyneb rhwng dysgu ac addysgu, ac ymchwil; a dull cynnal yr Holiaduron Cloriannu Modiwlau. Croesawyd y prif nod o hyrwyddo'r ethos o fyfyrwyr yn bartneriaid yn eu dysgu.
3. Bu ymgynghori sylweddol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cydweithwyr academaidd a myfyrwyr. Roedd y Senedd wedi ystyried hefyd fersiwn gynharach o'r Strategaeth yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2019, lle'r oedd yr aelodau wedi argymhell i'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo drafft y Strategaeth Dysgu ac Addysgu 2019–22 (**GWEITHREDU: Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)**).
3. Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol, yn ymgorffori drafft Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru (COU1819-147).

NODWYD

1. Byddai'r is-strategaeth ddrafft yn ategu'r Strategaeth sefydliadol gyffredinol ar gyfer 2018-23, ac yn dwyn ynghyd yr amcanion a amlinellir yng Nghynllun Academaidd Cyfrwng Gymraeg y sefydliad, Cynllun Strategol Integredig y Gymraeg, a'r Strategaeth Dwyieithrwydd.
2. Byddai'r is-Strategaeth yn rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa i gyflwyno cynllun cydlynol a fyddai'n mynd â'r Brifysgol yn ei blaen i gyflawni ei chenhadaeth ddwyieithog, ac yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith sy'n berthnasol i'r sefydliad.
3. Roedd y Senedd wedi ystyried y Strategaeth ddrafft ar 12 Mehefin 2019, lle'r oedd yr aelodau wedi argymhell i'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru (**GWEITHREDU: Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol**).

97. POLISI DEFNYDD MEWNOL O'R GYMRAEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol, yn ymgorffori drafft Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg (COU1819-150).

NODWYD

1. Yn ôl telerau Safon y Gymraeg 105, rhaid i'r Brifysgol fabwysiadu polisi ynglŷn â defnydd mewnol o'r Gymraeg. Roedd y Polisi drafft felly'n defnyddio ymrwymiadau

sydd eisoes yn eu lle wedi'u seilio ar Safonau eraill y Gymraeg, a darpariaethau sydd i'w gweld yng Nghynllun Iaith blaenorol y Brifysgol.

2. Ymgynghorwyd â nifer o gyrff mewnol eisoes wrth ddatblygu'r Polisi drafft, gan gynnwys y Senedd, Grŵp Gweithredol y Gymraeg, Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r Undebau Llafur.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo drafft Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

98. COD YMARFER RHYDDID I LEFARU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori diwygiadau drafft i'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru (COU1819-149).

NODWYD

1. Y tro diwethaf y cafodd Cod Ymarfer cyfredol y Brifysgol ar Ryddid i Lefaru ei ddiwygio oedd mis Mai 2016, a dylid bod wedi ei ddiwygio yn ystod 2018. Ond, oherwydd yr ad-drefnu sylweddol ledled y Brifysgol, penderfynwyd gohirio'r adolygiad.
2. Yn seiliedig ar drafodaethau diweddar yn y sector a chanllawiau sydd newydd eu rhyddhau, roedd diwygiadau'n cael eu cynnig yn awr i God Ymarfer y Brifysgol ar Ryddid i Lefaru. Cafodd nifer o unigolion eu gwahodd eisoes i roi adborth ar y diwygiadau a gynigir, a gofynnir am adborth gan yr Undebau Llafur.
3. Cafodd y diwygiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio ar 23 Mai, a chan y Senedd ar 12 Mehefin 2019. Yn y ddau gyfarfod, roedd yr aelodau wedi argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru diwygiedig (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

99. DATGANIAD BUDDSODDI CYMDEITHASOL GYFRIFOL (BCG)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori diwygiadau arfaethedig i Ddatganiad y Brifysgol ynghylch BCG (COU1819-151).

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 16 Mai 2019, roedd aelodau'r Pwyllgor Buddsoddiadau wedi ystyried diwygiadau i'r Datganiad BCG, sy'n rhan o Bolisi Buddsoddiadau'r sefydliad. Roedd hyn yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor ar 05 Tachwedd 2018 ynghylch ystyriaethau Llywodraethol, Amgylcheddol a Chymdeithasol a Buddsoddi yn seiliedig ar genhadaeth.
2. Roedd y diwygiadau arfaethedig i'r Datganiad BCG yn seiliedig ar yr hyn a wnaed mewn sefydliadau addysg uwch eraill. Bu 'Cambridge Associates', sef Ymgynghorwyr Buddsoddi'r Brifysgol, hefyd yn ymwneud â datblygu'r diwygiadau arfaethedig a byddant yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Buddsoddiadau ynglŷn â'r

ffordd y mae buddsoddiadau cyfredol y Brifysgol yn cydymffurfio â'r Datganiad BCG diwygiedig.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r newidiadau i'r Datganiad BCG (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

100. POLISI AR DDEFNYDDIO GWADDOLION GRŴP 1

NODWYD

Trwy gamgymeriad, ni chafodd yr adroddiad ei gynnwys ymhlith papurau'r Cyngor a byddai'n cael ei ddsbarthu i'w ystyried trwy ohebiaeth (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

101. CYLCHOEDD GORCHWYL Y PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori diwygiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) (COU1819-153).

NODWYD

1. Ar 23 Mai 2019, roedd aelodau'r Pwyllgor LI&Ch wedi ystyried cylch gorchwyl y pwyllgor yng nghyd-destun holiadur blaenorol, a lenwyd gan aelodau'r Pwyllgor, ynglŷn ag effeithlonrwydd y pwyllgor. Cafodd mân ddiwygiadau eu cynnig i gylch gorchwyl y Pwyllgor LI&Ch yn seiliedig ar yr ymatebion yn yr holiaduron.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylch gorchwyl y Pwyllgor LI&Ch (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

102. DIWYGIO ORDINHAD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 21 (COU1819-154).

NODWYD

1. Roedd Pennaeth Rheoli Gwybodaeth, Llyfrgelloedd ac Archifau (iMLA), a'r Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr, wedi cynnig y dylid galw iMLA wrth ei enw blaenorol yn y dyfodol, sef Astudiaethau Gwybodaeth. I wneud hyn, bydd angen mân ddiwygiad i Ordinhad 21.
2. Cafodd y cynnig ei ystyried gan y Pwyllgor LI&Ch ar 23 Mai, a chan y Senedd ar 12 Mehefin 2019. Yn y ddau gyfarfod, roedd yr aelodau wedi argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 21 (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

103. PENODIADAU I IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-155).

NODWYD

1. Ar hyn o bryd, mae nifer o leoedd gweigion i Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar is-bwyllgorau'r Brifysgol, a rhagor i ddod yn y dyfodol agos. Roedd y rhain wedi eu nodi yn yr adroddiad.
2. Ystyriwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor LI&Ch trwy ohebiaeth ddiwedd mis Mai 2019. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor LI&Ch i argymhell y camau fel y cawsant eu hamlinellu yn yr adroddiad a atodwyd at y Cyngor.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r penodiadau a argymhellwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
4. Ystyried ymhellach pa ffordd fyddai orau i benodi i'r swydd wag ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

104. CYTUNDEB PERTHYNAS GYDAG UMABER

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-156).

NODWYD

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu'n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd, a'i lofnodi gan y Swyddogion Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi.
2. Heblaw am ddiweddarau'r llofnodion, nid oedd newidiadau'n cael eu cynnig i'r cytundeb fel y saif ar hyn o bryd ac roedd copi wedi'i atodi wrth yr adroddiad. Cadarnhawyd hyn gan y Pwyllgor LI&Ch yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2019.

PENDERFYNWYD

3. Y dylid cadw'r Cytundeb Perthynas cyfredol am y flwyddyn academiaidd i ddod (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

104. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1819-157);
2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1819-158);
3. Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithrediadol (COU1819-159); a
4. Adroddiad ar gwynion ynglŷn â Safonau'r Gymraeg (COU1819-160).

NODWYD

5. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

105. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1819-161);

1. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (23 Mai 2019);
2. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (23 Mai 2019).
3. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (24 Mai 2019);
4. Y Senedd (20 Mai 2019 a 12 Mehefin 2019); a
5. Y Pwyllgor Buddsoddiadau (16 Mai 2019)

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau.

106. UNRHYW FATER ARALL

1. Ffarwelio

1. Hwn fu cyfarfod olaf y Cyngor i Bruce Wight, Llywydd UMAber ac Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA. Diolchodd yr aelodau i'r ddau am eu cyfraniadau i'r corff llywodraethu yn ystod eu cyfnodau yn swyddogion sabothol a dymunwyd yn dda iddynt.
2. Hwn hefyd fu cyfarfod olaf y Cyngor i'r Athro Chris Thomas cyn iddo adael ei swydd yn y Brifysgol. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad i'r Brifysgol a'r Cyngor yn ystod ei gyfnod yn Ddirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd newydd yn Athro Ymchwil Nodedig ym Mhrifysgol Lincoln, swydd y bydd yn cychwyn ynddi ddechrau mis Hydref 2019.